5.64

ANTHEM GENEDLAETHOL.

[GAN PENFRO].

O! Frenin mawr y byd,
Amddiffyn Di o hyd
Deyrn Prydain Fawr;
Ei orsedd cadarnha,
A'i freiniol law cryfha;
Yn ffyrdd y doeth a'r da
Dal ef bob awr.

O orsedd wen y nef,
Duw, tywallt arno ef
Dy ddoniau rhad:
O! boed i'th Ysbryd Di
Fendithio'n brenin ni,
A'i gadw yn ei fri
Yn nawdd i'n gwlad.

Llewyrcha goleu hedd
Ar ei frenhinol sedd
A'i deyrnas oll;
O! cynnal ef bob awr
A nerth Dy allu mawr,
A'th ras fo iddo 'nawr,
Yn nawdd digoll.

Dan ei lywodraeth ef
Aed dylanwadau'r nef
O fôr i fôr;
O! boed i'n brenin ni
Ddyrchafu clod a bri
Dy lân frenhiniaeth Di,
O! Arglwydd Ior.

Y WASG EGLWYSIG GYMREIG, CYF., LAMPETER.

6411 X205212602